CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 12 Medi 2016 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Roedd yn bleser gan y Cynghorwyr longyfarch Alwena Mair Owen ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau, 2016.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Gorffennaf.

Yn dilyn y cyflwynaid a gafwyd gan gwmni RES yng nghyfarfod 11 Gorffennaf 2016, roedd y Clerc wedi holi eto am:

1. Osod llinellau trydan dan ddaear yn hytrach nag ar draws gwlad ar bolion.
2. Uchder y melinau gwynt.
3. Dyfnder y seiliau ar gyfer y twrbinau.
4. Y ffordd fynediad dros dir comin i'r safle.
5. Pam mynd ati i herio dyfarniad adroddiad yr Arolygwr.
6. Pam oedd canfyddiad a diffiniad RES o ffiniau'r tir a adwaenir fel Mynydd Llanllwni mor wahanol i ganfyddiad y gymuned leol.
7. Sefydlu Cronfa Gymunedol.

Roedd hi heb dderbyn ymateb. Penderfynwyd gan y Cynghorwyr y dylai'r Clerc gysylltu eto.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.
Roedd y toiledau wedi cyrraedd ar 02 Mehefin 2016. Byddai'r cwmni llogi yn casglu ar 30 Medi 2016.
Roedd y Cyngor Sir wedi gwneud archwiliad o'r adnoddau ar y cae chwarae. Byddai copi o'r adroddiad yn cael ei anfon i'r Clerc cyn cyfarfod Mis Tachwedd.
Byddai arwydd **"Araf, Plant yn Chwarae/Slow, Children Playing**" yn cael ei osod yn y dyfodol agos.
Cafwyd gwybodaeth bod y coed o gwmpas y cae chwarae wedi estyn dros ran o'r cae a bod y ffens mewn cyflwr gwael. Penderfynwyd dod â rhagor o wybodaeth i'r cyfarfod nesaf.

GWEFAN LLANLLWNI:
Byddai adroddiad o gyfarfod mis Medi ar y wefan, ac yn *Clonc* a *Clecs Bro Cader* yn fuan.

MANTOLEN 2015–2016
Roedd y cyfrifon wedi'u harchwilio.

Y GOLAU GER YR YSGOL:
Roedd y gwaith wedi ei gwblhau.

PARCIO GWRTHGYMDEITHASOL
Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad y byddai Dafydd Llywelyn, Comisynydd yr Heddlu, yn mynychu cyfarfod Mis Tachwedd.

SBWRIEL AR HYD Y PENTREF:
Roedd llawer o sbwriel ger Erw-lon; Maes-pwll–Aberceiliog; Waun-fawr–Bryn.

DIWRNOD O HWYL

Roedd y Clerc wedi danfon gair o ddiolch at deulu Tir-lan.

YSGOL SUL YR EGLWYS, LLANLLWNI
Roedd y Clerc wedi cysylltu i holi a oedd yr Ysgol Sul am gyfraniad at gostau gan mai dyma'r unig Ysgol Sul yn y pentref bellach. Teimlai'r Cynghorwyr bod angen cyfrannu at rywbeth penodol.

BIN SBWRIEL CWARAU MOWNT
Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir a chafwyd cadarnhad y byddai bin yn cael ei osod yno yn y dyfodol agos.

SLCC
Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr y byddai'r Clerc yn mynychu'r cyfarfod nesaf.

LLWYBR CYHOEDDUS
Derbyniwyd gwybodaeth y byddai'r llwybr cyhoeddus ger Pen-rhiw yn cael ei symud.

PWYLLGOR HENOED LLANLLWNI:
Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod ar nos Lun 26 Medi 2016 yn ysgol Llanllwni am 7.30yh i drafod ailsefydlu'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Tachwedd 2016 am 8.00yh.